# Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r sefyllfa i bobl Fyddar yng Nghymru sy'n profi problemau iechyd meddwl, a'r sefyllfa bresennol o ran darpariaeth y gwasanaeth iechyd. Y nod yw codi ymwybyddiaeth Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid perthnasol eraill er mwyn argymell ffyrdd o wella canlyniadau iechyd meddwl i bobl Fyddar yng Nghymru.

Cydweithiodd Grŵp Iechyd Meddwl a Lles Pobl Fyddar Cymru Gyfan â gweithwyr proffesiynol ym maes byddardod a'r clyw i lunio'r adroddiad hwn er mwyn rhoi crynodeb o'r anghydraddoldebau iechyd a brofir gan bobl Fyddar yng Nghymru mewn perthynas â darpariaeth y gwasanaeth iechyd meddwl. Cynhaliwyd chwiliad llenyddiaeth, yna casglwyd data o astudiaethau achos gan bobl Fyddar a Chyfieithwyr Iaith Arwyddion Prydain (BSL)/Saesneg, gwerthusiadau o fentrau hybu iechyd meddwl sy'n cynnwys pobl Fyddar, ystadegau gan asiantaethau cyfieithu Iaith Arwyddion, a gwybodaeth gan wasanaethau arbenigol iechyd meddwl y Byddar yn y DU.

Cynhyrchwyd yr adroddiad gan fod 40% o bobl Fyddar yn profi **problemau iechyd meddwl, sydd ddwywaith yn fwy nag unigolion mewn poblogaethau sy'n clywed** (Fellinger et al., 2012).

**Cymru yw'r unig wlad yn y DU nad yw'n darparu llwybr neu wasanaeth clir i ddiwallu anghenion pobl Fyddar sy'n profi iechyd meddwl gwael** (Cymdeithas Iechyd Meddwl a Byddardod Prydain, 2020).

**Mae'r pandemig coronafeirws wedi gorfodi llawer o bobl i mewn i dlodi, diweithdra ac argyfwng iechyd meddwl ac mae'r gwaharddiadau sy'n wynebu defnyddwyr Byddar BSL hyd yn oed yn fwy amlwg** (Redfern & Baker, 2020).

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at y canfyddiadau canlynol:

Mae tua 575,000 o bobl fyddar a thrwm eu clyw yn byw yng Nghymru (Gweithredu ar Golli Clyw, 2016), ac mae hyn yn cynnwys dros 4000 o bobl sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain (BSL) (Shank & Foltz, 2019).

**Mae pobl fyddar yn aml yn profi mynediad cyfyngedig i ofal iechyd**, amrywiadau mewn mynediad i addysg, agweddau cymdeithasol negyddol a llai o gyfleoedd o ran gwaith a hamdden (Lesch et al., 2019; Dreyzehner & Goldberg, 2019).

**Nid yw llawer o bobl Fyddar wedi eu cofnodi fel pobl Fyddar yn eu cofnodion gofal sylfaenol.** Yn aml iawn, os cânt eu cyfeirio wedyn at wasanaethau iechyd eraill, nid yw manylion penodol a allai effeithio ar eu profiad o'r gwasanaeth iechyd yn cael eu trosglwyddo ac felly maen nhw'n anhysbys.

Yn 2019 comisiynodd Iechyd Cyhoeddus Cymru adroddiad i archwilio ymddygiadau iechyd a rhwystrau a wynebir gan bobl Fyddar yng Nghymru gan **adrodd bod mynediad at wasanaethau iechyd yn broblem fawr a bod pobl Fyddar yn aml yn osgoi cyswllt â gwasanaethau iechyd oherwydd profiadau gwael yn y gorffennol.** Yn 2010 comisiynodd Llywodraeth Cymru'r Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol ar gyfer Pobl Fyddar i ymchwilio i'r rhwystrau cynhwysiant sy'n wynebu pobl Fyddar a thrwm eu clyw yng

Nghymru. Tynnodd 84% o ymatebwyr Byddar sylw at y ffaith ei bod yn **anodd defnyddio gwasanaethau iechyd oherwydd bod darpariaeth gyfyngedig i bobl Fyddar ddefnyddio gwasanaethau yng Nghymru,** yn enwedig gwasanaethau iechyd.

Er i BSL dderbyn cydnabyddiaeth fel iaith ynddi'i hun (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2006), **mae prinder cyfieithwyr BSL/Saesneg ledled y DU (Adran Gwaith a Phensiynau, 2017).** Ar y Gofrestr Gyfathrebu Genedlaethol o Weithwyr Proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl Fyddar a Byddarddall, dim ond 48 o unigolion sydd wedi'u cofrestru fel preswylwyr yng Nghymru gyda 6 ar lefel hyfforddi, sy'n is na'r targed o 64 a osodwyd (Llywodraeth Cymru, 2019a).

Mae cais Rhyddid Gwybodaeth (FoI) 2020 yn awgrymu ei bod yn ofynnol i **bobl Fyddar ofyn am wybodaeth mewn fformat hygyrch, fel taflen wybodaeth yn BSL, yn wahanol i wybodaeth i siaradwyr Cymraeg sy'n cael ei chynnig yn weithredol.**

**Mae plant byddar, yn enwedig y rhai a anwyd i rieni sy'n clywed, dan anfantais o'u genedigaeth gan nad oes ganddynt fynediad i'r un cyfleoedd addysg ac iechyd â'u cyfoedion sy'n clywed (Hermann et al, 2014; Murray et al, 2019).** Efallai na fyddai rhieni sy'n clywed wedi cael unrhyw brofiad o iaith weledol (hy BSL) nac ychwaith wedi cael unrhyw gyswllt â modelau rôl Byddar. Os na all rhieni a brodyr a chwiorydd ddefnyddio BSL, mae plant yn ynysig, ac mae teuluoedd yn cael trafferth gyda chyfathrebu (Collinson, 2017).

**Ychydig iawn o gefnogaeth neu adnodd sydd ar gael i deulu plentyn Byddar ddysgu BSL** (Llywodraeth Cymru, 2020). Mae'r sgiliau a'r wybodaeth y mae pobl yn eu datblygu yn eu diwylliant eu hunain yn gyfyngedig (Young & Hunt, 2011) gan nad oes gan blant byddar gyfle i gael cyfleoedd dysgu wrth fynd heibio, i ofyn cwestiynau a chasglu newyddion, gwybodaeth neu ddeall arferion cymdeithasol sy'n ymestyn i addysg (Listman, Rogers & Hauser, 2011).

**Mae pobl fyddar yn profi unigedd, gwahaniaethu a straen yn ddyddiol** (Bone, 2019) sy'n cyfrannu at brofiadau o bryder ac iselder.

**Mae pobl fyddar yn brwydro'n gyson i gael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl, gyda darpariaeth gyfyngedig ar gyfer pobl Fyddar yng Nghymru.** Nid oes gan Dde Cymru rwydwaith iechyd meddwl arbenigol i'r Byddar o gwbl, ac mae'r gwasanaeth yng Ngogledd Cymru yr adroddwyd arno gan Reader, Foulkes a Robinson (2017) bellach wedi diddymu. Mae cleifion Byddar yn bennaf sydd angen gofal cleifion mewnol yn cael eu cyfeirio i Loegr, ymhell iawn oddi wrth eu teuluoedd a'u rhwydweithiau cymdeithasol, ac ar gost ariannol sylweddol i'r gwasanaeth iechyd.

Mae'r gronfa ddata Cysylltiad Gwybodaeth Dienw Diogel (SAIL), sydd wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Abertawe, yn nodi **nad yw ein systemau yng Nghymru'n gallu darparu gwybodaeth gywir am nifer y bobl Fyddar, na nifer y bobl Fyddar sydd â phroblemau iechyd meddwl.** Mae Gwasanaethau Gwybodeg GIG Cymru yn cefnogi'r farn hon.

**Yn aml nid yw ffurflenni cleifion newydd mewn meddygfeydd Meddyg Teulu (GP) yn gofyn am glyw**, felly os yw pobl yn mynychu apwyntiad sgrinio efallai bod yr wybodaeth

hon yn cael ei chofnodi ond yn anaml y caiff ei choladu ar gronfeydd data iechyd neu systemau canolog. **Nid yw llawer o feddygfeydd yn gwybod am drefniadau lleol ar gyfer archebu cyfieithwyr BSL/Saesneg** i alluogi i bobl Fyddar gymryd rhan mewn trafodaethau ystyrlon mewn apwyntiadau iechyd.

Gan fod dros 2500 o blant yng Nghymru yn fyddar, mae'n debygol y bydd tua 1000 o blant yng Nghymru mewn perygl o gael problemau iechyd meddwl yn y dyfodol (Wright, 2020). **Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gysylltiadau sefydledig rhwng Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yng Nghymru a gwasanaethau CAMHS y Byddar yn y DU, fel y mae rhwng y gwasanaethau CAMHS i rai sy'n clywed yng Nghymru a'r gwasanaeth CAMHS i rai sy'n clywed mewn ardaloedd eraill yn y DU.**

Mae pedwar prif ddarparwr gwasanaethau cyfieithu ar gyfer pobl Fyddar yng Nghymru ac maent yn darparu gwasanaethau i hwyluso cyfathrebu rhwng pobl Fyddar a phobl sy'n clywed. **Mae'r trefniadau ar gyfer archebu cyfieithwyr BSL/Saesneg yn anghyson ac nid ydynt bob amser yn hysbys i bobl Fyddar. Yn aml nid yw staff iechyd yn ymwybodol o sut mae systemau archebu yn gweithio ac nid ydynt yn gwybod sut i helpu.** Gall cyfieithu ar-lein fod yn ddewis arall, ond **mae'r nifer sy'n ei ddefnyddio yng Nghymru'n parhau i fod yn isel oherwydd materion gweithdrefnol a thechnegol.**

Bydd yr argymhellion canlynol sy'n seiliedig ar ganfyddiadau'r adroddiad hwn yn gwneud gwelliannau sylweddol i iechyd meddwl cadarnhaol pobl Fyddar yng Nghymru:

## Argymhellion allweddol:

- Cynyddu gwybodaeth gweithwyr iechyd a gofal o BSL sylfaenol a sut i archebu Sign Cyfieithwyr BSL/Saesneg
- Bydd gan staff gofal sylfaenol fwy o wybodaeth am y gwasanaethau iechyd meddwl sydd ar gael i gleifion Byddar ac i gyfeirio
- Gall cleifion byddar fynd yn uniongyrchol i wasanaethau cwnsela i'r Byddar
- Hyfforddiant sylfaenol ynghylch materion Byddar i'r holl weithwyr iechyd a gofal
- Byddai llinell gymorth a gwasanaeth cyfeirio hygyrch yn cyfeirio unigolion, teuluoedd a gweithwyr at gyngor amserol
- Monitro effeithiolrwydd y modd y mae Byrddau Iechyd yn darparu Safonau gwybodaeth hygyrch Cymru gyfan
- Gwella mynediad at wybodaeth i ddefnyddwyr BSL trwy fabwysiadu'r un hawliau i wasanaethau â siaradwyr Cymraeg
- Ail-sefydlu cysylltiadau â CAMHS Byddar

I grynhoi, mae Grŵp Iechyd Meddwl a Lles Pobl Fyddar Cymru Gyfan yn awyddus i ddechrau deialog gyda Llywodraeth Cymru ynghylch y materion a godir yn yr adroddiad hwn. Mae'n hanfodol symud ymlaen tuag at atebion tymor byr ac atebion ar unwaith, yn ogystal â darpariaeth hirdymor effeithiol i wella llwybrau iechyd meddwl i bobl Fyddar yng Nghymru.